**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10.30am trwy gyfrwng Microsoft Teams Ddydd Iau 4 Mawrth 2021**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Melody Chapman, Gareth Wynn Davies, Huw Davies, John T Davies, Rhys Davies, Rachael Madeley Davies, Prys Morgan, Catherine Smith a Claire Williams

**Trwy Wahoddiad:** Mark Alexander, Llywodraeth Cymru
Rhys Pugh, Llywodraeth Cymru
Alison Wright (Eitem 10)

**Y Weithrediaeth yn bresennol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes (Swyddog Gweithredol Cig Coch) – Eitemau 6, 7a, 7b)
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i chweched cyfarfod ffurfiol y Bwrdd i gael ei gynnal yn rhithiol oddi ar y pandemig Coronafeirws (Covid-19).

Nodwyd taw hwn fyddai cyfarfod Bwrdd ffurfiol olaf y Cadeirydd fel Cadeirydd HCC am fod ei gyfnod yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch yn bersonol i'r Bwrdd a'r Weithrediaeth am eu cyfraniad a chefnogaeth iddo ef, y cwmni a'r diwydiant yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

Ar ran y Bwrdd, bu'r Cadeirydd yn llongyfarch Cath Smith am gael ei phenodi'n Gadeirydd HCC o 1 Ebrill 2021.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol rhithiol y bu'n eu mynychu oddi ar gyfarfod blaenorol y Bwrdd: -

19 Ionawr 2021 – Cyfarfod o Fwrdd y Rhaglen Gwerthoedd Brandiau Cynaliadwy (SBV)

26 Ionawr 2021 – Cyfarfod o Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio.

28 Ionawr 2021 – Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr â Swyddogion Llywodraeth, Andrew Slade a Tim Render ar gyfer diweddariad ynghylch Ymgyrch Y Ffordd Gymreig a materion newid hinsawdd

1 Chwefror 2021 – Cyfarfod Bord Gron y Gweinidog

3 Chwefror 2021 –Pwyllgor Cynghori HCC ar Farchnata (Gweler Eitem 9c).

4 Chwefror 2021 – Cyfarfod diweddaru Bwrdd HCC

10 Chwefror 2021 – Cyfarfod Llywodraethiant chwarterol Llywodraeth Cymru a HCC

23 Chwefror 2021 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn mynychu Cynhadledd yr NFU yn rhithiol

24 Chwefror 2021 – Cyfarfod â'r Prif Weithredwr ac Alison Wright ynghylch gwerthusiadau'r Bwrdd

2. **<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb</u>**

Cafwyd ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod gan Maria Richards, Llywodraeth Cymru.

3. **<u>Datganiadau o Fuddiannau</u>**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

4. **<u>I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd Ddydd Iau 14 Ionawr 2021 (HCC 986)</u>**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o’r Bwrdd a gynhaliwyd Ddydd Iau 14 Ionawr 2021 wedi’u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna’u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **<u>Materion yn codi</u>**

*<u>Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a chostau adennill 2021 / 2022</u>*

Nodwyd bod y Gweinidog wedi cytuno ag argymhelliad y Bwrdd y dylai'r ardollau aros fel y maent ar gyfer 2021 / 2022.

*<u>Cynllun GI y DG</u>*

Nid oedd unrhyw beth yn benodol i'w ddiweddaru ynghylch yr uchod.  Fodd bynnag, nodwyd bod y Weithrediaeth wedi dechrau gweithio ar adolygiad o'r canllawiau ar gyfer Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru. Câi'r Bwrdd ei ddiweddaru am hyn maes o law.

*<u>Caffael Cig Coch Cymru</u>*

Roedd gwaith yn mynd rhagddo ynghylch ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd er mwyn cael hyd i gyfleoedd ar gyfer cig coch Cymru yn y sector caffael cyhoeddus.

Rhoddid diweddariad mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.

*Ymgynghoriad Defra ynghylch gwelliannau i les anifeiliaid sy'n cael eu cludo*

Dywedodd y Prif Weithredwr fod HCC wedi cyflwyno ymateb i'r uchod

6. **I gael diweddariad am y Cynllun Ardoll Cig Coch**

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y cytundeb a'r broses gyfreithiol ynghylch ailddosbarthu Ardollau rhwng Cymru, Lloegr a'r Alban ar fin cael ei gwblhau a byddai'n dod i rym ar 1 Ebrill 2021. Golygai y byddai Cymru'n derbyn £1m y flwyddyn yn ychwanegol o arian ardoll.

Rhoddodd y Weithrediaeth Cig Coch ddiweddariad am y fethodoleg a'r egwyddorion a gytunwyd ynghylch rhannu'r Ardoll ar gyfer defaid, gwartheg a moch.

Nodwyd y byddai adolygiadau parhaus o'r ffordd y caiff yr Ardoll ei rannu yn parhau, gan gofio bod cronfeydd data ar gyfer symud anifeiliaid yn y broses o gael eu newid (sy'n golygu y gallai methodolegau gael eu gwella).

Roedd hwn wedi bod yn fater hirsefydlog a chymhleth iawn i'w ddatrys a chafodd y gwaith a wnaed gan y Prif Weithredwr a'r Weithrediaeth Cig Coch ei ganmol gan y Bwrdd.

Ceid cyhoeddiadau gweinidogol gan y tair gwlad maes o law a chyn 1 Ebrill 2021.

7. **Corfforaethol**

a. I gymeradwyo Cynllun Corfforaethol drafft HCC ar gyfer 2021 / 2024 (HCC 987)

b. I gymeradwyo Cynllun Gweithredol drafft HCC ar gyfer 2021 / 2022 (HCC 988)

Cymerwyd bod yr uchod wedi’u darllen a chafwyd crynodeb gan y Swyddog Cig Coch.

Nodwyd bod y ddwy ddogfen wedi'u diweddaru i adlewyrchu sylwadau'r Bwrdd yng nghyfarfod 14 Ionawr 2021. Roedd sylwadau gan Lywodraeth Cymru hefyd wedi'u hystyried a'u diweddaru'n unol â hynny.

Y camau nesaf: Câi Cynllun Corfforaethol 2021 / 2024 a Chynllun Gweithredol 2021 / 2022 eu cyflwyno i'r Gweinidog i’w hystyried.

8. **Adroddiadau HCC**

a. Gweithgareddau (HCC 989)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a bod gweithgareddau allweddol HCC wedi'u hamlygu gan y Pwyllgor Gwaith.

b) <u>I gael cyflwyniad am Ymgyrch Cig Oen Cymru PGI y DG</u>

Rhoddodd Rheolwr Datblygu'r Farchnad gyflwyniad ynghylch canlyniadau ymgyrch HCC ymhlith defnyddwyr y DG ar gyfer Cig Oen Cymru PGI yn 2020.

c. <u>Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 990)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

d. <u>Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 31 Rhagfyr 2020 (HCC 991)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafwyd crynodeb gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

e. <u>Digwyddiadau i ddod (HCC 992)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

9. **<u>Pwyllgorau HCC</u>**

***<u>Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu</u>***

a. <u>I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd Ddydd Iau 14 Ionawr 2021 (HCC 993)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

***<u>Y Gweithgor Iechyd Diadelloedd a Buchesi (FHHWWG)</u>***

b. <u>I gael adroddiad llafar am y Pwyllgor FHHWWG a gynhaliwyd Ddydd Mawrth 2 Chwefror 2021</u>

Dywedodd Cadeirydd y Grŵp fod yr uchod wedi'i drefnu fel cyfarfod diweddaru eithriadol yn dilyn canlyniad Brexit ac ymadawiad y DG â'r UE.

Rhoddodd cynrychiolwyr o Swyddfa Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) gyflwyniad ar brosesau, deddfwriaeth a rheoliadau mewnforio ac allforio ôl-bontio'r UE.

Byddai cyfarfod llawn nesaf y FHHWWG yn cael ei gynnal Ddydd Mercher 28 Ebrill 2021.

***<u>Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata</u>***

c. <u>I gael adroddiad llafar a derbyn y Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd Ddydd Mawrth 3 Chwefror 2021 (HCC 994)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

***<u>Y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE)</u>***

d. <u>I gael adroddiad llafar a derbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor R&D&KE a gynhaliwyd Ddydd Mercher 3 Chwefror 2021 (HCC 994)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

***<u>Y Grŵp Ymgysylltu â'r Diwydiant (ILG)</u>***

e. <u>I gael adroddiad llafar am y cyfarfod ILG a gynhaliwyd Ddydd Iau 25 Chwefror 2021</u>

Cafwyd adroddiad llafar am yr uchod gan Gadeirydd y Grŵp.

***<u>Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg</u>***

f. <u>I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd Ddydd Iau 4 Mawrth 2021</u>

Cafwyd adroddiad llafar am yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

10. **<u>Gwerthuso Bwrdd HCC 2021</u>**

Cafwyd cyflwyniad byr gan Ymgynghorydd Adnoddau Dynol HCC, Alison Wright, ar y broses o werthuso'r Bwrdd ar gyfer eleni.

Nodwyd bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn o amgylchiadau eithafol ac anarferol oherwydd pandemig Covid-19. O ystyried hyn, a'r cyfyngiadau a ddilynodd, bu'n anodd i'r Bwrdd gyflawni'r hyn a ddisgwylid ganddo.

A chymryd yr uchod i ystyriaeth, roedd y Cadeirydd wedi penderfynu na fyddai'r gwerthuso ffurfiol arferol o'r Bwrdd yn digwydd eleni ac yn lle hynny ceid adolygiad interim anffurfiol a fyddai'n bennaf yn cyfnewid adborth ac yn archwilio meysydd i ganolbwyntio arnynt a'u datblygu yn y flwyddyn i ddod.

Byddai Alison Wright yn cysylltu'n gyfrinachol eto â'r Bwrdd a byddai cyfarfodydd trafod unigol â'r Cadeirydd yn cael eu trefnu trwy Teams ar ôl hynny.

11. **Unrhyw fater arall**

*Senedd Cymru – Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Materion Gwledig*

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n cymryd rhan rithiol mewn sesiwn dystiolaeth gyda'r uchod ar 4 Mawrth 2021. Ceid trafodaeth ar sut mae'r trefniadau masnachu newydd â'r Undeb Ewropeaidd yn cael effaith ar amaethyddiaeth a'r sectorau cynhyrchu a phrosesu bwyd ar hyn o bryd; ac i ystyried effaith y trefniadau masnachu newydd ar y sectorau a gweithrediadau yn y dyfodol.

*Y Sector Gwasanaeth Bwyd*

Cafwyd trafodaeth ar effaith ddifrifol y pandemig Covid-19 ar y sector Gwasanaeth Bwyd, ynghyd â'r camau a bennwyd gan y Llywodraeth. Cafwyd newid sylweddol tuag at fân-werthu ac roedd defnyddwyr hefyd yn prynu mwy o amrywiaeth o doriadau nag oeddynt chyn y pandemig.

Yn wahanol i'r sefyllfa mewn mân-werthu, ar hyn o bryd nid oedd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i'r sector Gwasanaethau Bwyd nodi Gwlad Tarddiad ar fwydlenni. Pe bai hyn yn orfodol, byddai'n rhoi cyfle i ddefnyddwyr wneud dewis gwybodus ynghylch manylion fel tarddiad a chynaliadwyedd, ac yn rhoi tryloywder llawn fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd yn y sector mân-werthu. Câi gwybodaeth bellach ei chasglu am berfformiad y sector Gwasanaeth Bwyd.

**Gweithredu: Y Prif Weithredwr (Dadansoddwraig Data)**

*Ymgynghori ynghylch Golygu Genynnau*

Nodwyd na fyddai HCC yn ymateb i'r uchod gan fod yr ymgynghoriad yn fater datganoledig ac yn cael ei arwain gan Defra ar gyfer Lloegr yn unig.

*Hawlio Treuliau*

Atgoffwyd y Bwrdd y dylid cwblhau hawliadau treuliau a'u cyflwyno i'r Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol erbyn Dydd Llun 15 Mawrth 2021 fan bellaf.

12. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod:**

Diweddaru'r Bwrdd drwy gyfrwng Teams – Dydd Iau 1 Ebrill 2021 am 9.30am
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 6 Mai 2021 (Yr amser heb ei drefnu eto)

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**